# Rhaglen Ar-lein Cymorth Cynnar a Mwy Sir Fynwy

National Autistic Society | EarlyBird Plus Licensed

monmouthshire sir fynwy

## Gwybodaeth y Rhaglen

- Rhaglen chwe sesiwn yw hyn ar gyfer rhieni a gofalwyr plant awtistig rhwng 4 a 10 oed, neu sy'n mynd drwy'r broses ddiagnostig.
- Rydym hefyd yn anelu at wahodd aelod o staff yr ysgol sy'n gweithio gyda'u plentyn neu'n cefnogi eu plentyn.
- Cyswllt cartref dewisol yn ystod y rhaglen.
- Llyfr gwaith y rhaglen i gyd-fynd â'r rhaglen.

## Cynnwys a Nodau:

- Deall awtistiaeth; cyfathrebu; deall profiadau awtistig; cefnogi bywyd bob dydd; iechyd a lles a chysylltiadau.
- Ymunwch â rhieni eraill a gweithwyr proffesiynol i rannu profiadau.
- Adeiladu cysondeb a chyfathrebu gyda phawb.

## Pryd a Ble

Cyflwyno rhaglenni ar-lein neu rhaglenni wyneb yn wyneb, ill dau ar gael. Cyflwyno'r rhaglen wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir Brynbuga yn nhymor yr hydref dros chwe wythnos. Cyflwyno ar-lein fel arfer yn nhymor yr haf. Opsiwn ar gyfer rhaglen ychwanegol yn nhymor y gwanwyn, yn dibynnu ar y galw.

**"Mae'r cwrs hwn yn amhrisiadwy i ddeall awtistiaeth.Byddwn yn ei argymell i unrhyw un sy'n dymuno gwella'u gwybodaeth."**

**"Diolch yn fawr iawn. Roedd hwn yn gwrs da iawn ac wedi cael ei redeg yn dda iawn. Roedd cydbwysedd da iawn o roi lle ac amser i ni i gyd siarad trwy ein profiadau ein hunain, myfyrio ar y pynciau, a symud trwy'r deunydd cwrs.Rydyn ni'n colli bod ar y cwrs!"**

**Tîm DerynCynnar Plws – Sir Fynwy Caiff y rhaglen ei rhedeg gan** Seicolegwyr Addysgol o Sir Fynwy (Stephen Trow a Tanya Walters) a'r Athrawes Ymgynghorol Anghenion Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar (Ruth Davies). Mae gennym i gyd brofiad a dealltwriaeth o awtistiaeth ac ieuenctid gydag awtistiaeth mewn ysgolion a'r gymuned. Cawsom i gyd ein hyfforddi gan Ganolfan DerynCynnar y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn Ne Swydd Efrog i fedru cyflawni'r rhaglen.



**Stephen Trow – Seicolegydd Addysgol**
Rwyf wedi gweithio fel Seicolegydd Addysgol yn Sir Fynwy ers 2007 a gweithiais yng Nghaerffili a Swydd Lincoln cyn hynny. Rwyf wedi gweithio gydag amrywiaeth o blant gydag awtistiaeth/anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, eu teuluoedd a lleoliadau. Rwyf wedi bod yn rhan o dîm yn cyflwyno'r rhaglen DerynCynnar Plws yn Sir Fynwy ers 2014. Rwy'n wirioneddol fwynhau y cyswllt a'r meithrin hyder a ddaw o'r rhaglen ar gyfer rhieni/gofalwyr a staff.



**Ruth Davies – Athrawes Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar**
Ymunais ag awdurdod lleol Sir Fynwy gan weithio o fewn ac wedyn yn rheoli'r Tîm Anawsterau Dysgu Penodol. Fe wnes hefyd ddod yn Swyddog Cyswllt Anghenion Addysgol Arbennig Blynyddoedd Cynnar, gan weithio gyda lleoliadau nas cynhelir yn Sir Fynwy. O fis Medi 2021, roeddwn yn un o'r Athrawon Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar gan weithio'n llwyr o fewn yr ardal. Mae gennyf brofiad dysgu eang ac rwyf wedi gweithio gyda phobl ifanc gydag amrywiaeth o wahaniaethau, yn cynnwys rhai gydag Awtistiaeth. Hyfforddais i gyflwyno DerynCynnar Plws yn 2014 ac wedi bod yn helpu i gyflwyno'r rhaglen bob blwyddyn ers hynny. Mae'n wych gweitthio gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu drwy DerynCynnar Plws.



**Tanya Walters – Seicolegydd Addysgol**
Rwyf wedi gweithio gyda Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy ers mis Ionawr 2020, ar ôl symud i Gymru o swydd yn Swydd Caerloyw, lle roedd gennyf rôl arbenigol yn gweithio gyda disgyblion gydag anghenion awtistiaeth/cyfathrebu. Mae hwn yn faes o ddiddordeb neilltuol i fi, ac rwyf wrth fy modd yn cefnogi teuluoedd/lleoliadau gydfa'u plant awtistig arbennig iawn ac unigryw.

**Cysylltwch â wendyedwards@monmouthshire.gov.uk 01633 644418 igael mwy o wybodaeth.**